

E-lawlyfr 1

SYNIADAU HANFODOL I DDEALL SYSTEMAU GWLEIDYDDOL

Uned 2: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

BYW A CHYFRANOGI MEWN DEMOCRATIAETH

Adnodd 5

*Carfanau Pwysu 1:
Nodweddion
a Mathau*

Llawlyfr Gwaith

LLAWLYFR GWAITH

CWESTIWN 1

Eglurwch gan ddefnyddio esiamplau beth yw ystyr y term carfanau pwyso.

CWESTIWN 2

Eglurwch gan ddefnyddio esiamplau beth yw'r gwahaniaeth rhwng carfan adrannol a charfan achos.

CWESTIWN 3

Eglurwch gan ddefnyddio esiamplau beth yw prif nodweddion carfan fewnol.

CWESTIWN 4**Adnabod Nodweddion Carfanau**

Ymchwiliwch i ddod o hyd i wybodaeth am y gwahanol garfanau yng ngholofn 1.

i: Nodwch **yng ngholofnau 2 a 3** rai o'r nodweddion sy'n perthyn i'r garfan.

ii: Ar sail y wybodaeth yng ngholofnau 2 a 3, **yng ngholofn 4** nodwch sut i'w categoreiddio: a yw'n garfan 'adrannol', 'achos' neu 'frig'.

1	2	3	4
CARFAN	SWYDDOGAETH/ PWRPAS	PWY MAE'N GYNRYCHIOLI	PA FATH O GARFAN
Pobl yn erbyn Wylfa B (PAWB)			
Campaign against the Gwent Levels Motorway (CALM)			
Cymdeithas Tirfeddianwyr Cymru (Country Landowners Association Wales)			
Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)			
Cyfeillion y Ddaear Cymru			
Undeb Athrawon Cymru (UCAC)			
Stonewall Cymru			
TUC Cymru			

CWESTIWN 5**Tasg: Adnabod y Dulliau Dylanwadu a Mannau Mynediad**

Ymchwiliwch i'r gwahanol garfanau yng ngholofn 1.

i: Ar sail hyn, llenwch y wybodaeth yn y colofnau sy'n dilyn o ran sut y byddech yn categorio'r garfan (mewnol neu allanol) a beth yw'r dulliau a manau o gael mynediad a gysylltir â nhw (mwy am hyn yn Adnodd 8).

1	2	3
CARFAN	STATWS MEWNOL NEU ALLANOL	DULLIAU O GAEL DYLANWAD
Siambrau Masnach Prydain (British Chambers of Commerce)		
Cardiff Anarchist Network (CAN)		
Cymdeithas Eryri / Snowdonia Society		
Hunt Saboteurs Association		
RSPCA		
Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain (Confederation of British Industry)		
NSPCC		
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg		
Dyfodol yr Iaith		
Cymdeithas Feddygol Prydain (British Medical Association – BMA)		

CWESTIWN 6**Tasg: Nodweddion Carfanau Pwysu a'r Pleidiau Gwleidyddol**

Ar gyfer yr ymarferiad hwn edrychwch ar y nodweddion sydd yn y golofn gyntaf.

i: Nodwch p'un a yw'r nodweddion hyn yn fwy tueddol o berthyn i garfanau neu i bleidiau.

Defnyddiwch groes i nodi eich dewis. Os yw nodwedd yn berthnasol i garfanau ac i bleidiau ac felly yn debyg rhwng y ddau, rhowch groes yn y ddau flwch.

ii: Rhowch ateb i gyfiawnhau eich dewis yn y golofn olaf.

Ni fydd yr atebion bob amser yn bendant y naill ffordd neu'r llall felly gallwch ateb 'weithiau'. Eto, o wneud hynny, esboniwch pam.

1	2	3	4
NODWEDDION	CARFANAU PWYSO	PLEIDIAU GWLEIDYDDOL	CYFIAWNHAU DEWIS
Datblygu polisi dros ystod eang o faterion			
Eisiau cael eu hethol i lywodraethu			
Mewn bodolaeth am amser hir			
Gweithdrefnau a dulliau gweithredu anffurfiol			
Ceisio dylanwadu ar lywodraeth a sefydliadau eraill			
Darparu cyngor neu arbenigedd			
Aelodaeth benodol			
Canolbwyntio ar feysydd polisi penodol			
Trefniadaeth ffurfiol			
Arweinwyr etholedig			
Democratiaeth fewnol			
Statws elusennol			
Anghytuno â'r sefydliad			
Cyllid gan y wladwriaeth			
Gweithredu cyfansoddiadol/ o fewn y cyfansoddiad			
Gallu troi at weithredu yn uniongyrchol			

CWESTIWN 7

Pam mae mwy a mwy o bobl wedi ymuno â charfanau pwyso yn y blynyddoedd diwethaf?

CWESTIWN 8

Cloriannwch beth yw'r prif wahaniaethau rhwng carfanau pwyso a'r pleidiau gwleidyddol.

CWESTIWN 9

Mae'r gwahaniaethu rhwng carfan 'fewnol' a charfan 'allanol' wedi colli ei werth bellach. Mae gan y mwyafrif o grwpiau statws mewnol. Trafodwch y dadleuon hyn.